

Adran 14 - Awdurdodi Prosiect

Corff Cymeradwyo:

Dyddiad Cumeradwyo:

Perchennog y Polisi:

Dyddiad Adolygu Diwethaf:

Dyddiad Adolygu Nesaf:

Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad

Tachwedd 2021

Cyllid a Chydymffurfiaeth

Tachwedd 2021

Rhagfyr 2022

Adran 14: Awdurdodi Prosiectau

14. Adran 14: Awdurdodi Prosiectau

14.1. Awdurdodi Prosiectau

14.1.1. Gall y Brifysgol ymrwymo i nifer o brosiectau newydd mewn blwyddyn.

Math o Brosiect	Disgrifiad	Cymorth Cyllid gan
Grantiau Ymchwil	Grantiau i gefnogi gweithgareddau ymchwil yn y Brifysgol. Darperir gan Sefydliadau Cyllido Ymchwil neu elusennau. Nid ydynt fel arfer yn cwmpasu Costau Economaidd Llawn cyflenwi	Cyllid Ymchwil
Contractau Ymchwil Masnachol	Contractau ymchwil masnachol sy'n cwmpasu o leiaf 100% o Gostau Economaidd Llawn cyflenwi.	Cyllid Ymchwil
Grantiau Refeniw Clustnodedig	Grantiau gan gyrrff Llywodraethol sydd fel arfer yn cwmpasu costau uniongyrchol yn gysylltiedig â menter benodol yn unig.	Cyllid Canolog
Trefniadau Cydweithredol Newydd	Gallai'r rhain gynnwys rhyddfrefiniau, cyrsiau gradd ar y cyd, partneriaethau cyfnewid neu bartneriaethau wedi'u cynllunio i gynyddu recriwtio. Cynigir y prosiectau newydd hyn drwy'r Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol	Cyllid Canolog
Prosiectau Eraill	e.e. Mentrau mawr i ddatblygu cynnyrch dysgu newydd neu fynd i farchnad newydd, neu fenter marchnata a recriwtio myfyrwyr newydd sylweddol	Cyllid Canolog
Prosiectau Cyfalaf	Prosiectau mawr ar gyfer adeiladu, adnewyddu neu brynu offer. Gallant fod wedi'u cyllido gan gyrrff Llywodraethol neu Sefydliadau Cyllido Ymchwil sy'n cwmpasu costau adeiladu neu gaffael offer neu dir ac adeiladau cychwynnol yn unig.	Cyllid Canolog

14.1.2. Cyfrifoldeb y rheolwr prosiect yw sicrhau'r awdurdodiad priodol. Anogir y rheolwr prosiect i ymgysylltu â'r tîm cymorth ariannol perthnasol yn gynnar yn y broses er mwyn sicrhau y gellir cynnal y diwydrwydd dyladwy perthnasol yn amserol.


14.2. Prosiectau ymchwil, contractau ymchwil masnachol a phrosiectau'n gysylltiedig ag ymchwil

14.2.1. Rheolir y broses ar gyfer paratoi a chyflwyno prosiectau ymchwil gan yr adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi.

14.2.2. Mae'r tîm Cyllid Ymchwil yn cynorthwyo gyda'r dadansoddiad ariannol o brosiectau ymchwil a dylai'r Prif Ymchwilydd neu'r Rheolwr Prosiect gysylltu â Chyllid Ymchwil i ddarparu cymorth i'r dadansoddiad ariannol.

14.2.3. Crynhoir y broses ymgeisio am grant yn y siart llif isod.

Proses Ymgeisio am Grant



Cyflwynwch ddraft o'ch cynnig i RBI ac ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid 3 wythnos cyn y dyddiad cau. Rhaid i chi gyflwyno'r holl waith papur a bod wedi cwblhau adolygiad cymheiriaid o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau (fel yr argymhellir gan UKRI). **Nid oes gwarant y caiff ceisiadau a anfonir at Grantiau Ymchwil lai na 5 diwrnod cyn y dyddiad cau eu cyflwyno.**

Adran 14: Awdurdodi Prosiectau

Matrics Awdurdodi ar gyfer Prosiectau Ymchwil

14.2.4. Mae'r tabl isod yn dangos y lefelau awdurdodi ar gyfer pob prosiect. Mae'r awdurdod yn seiliedig ar y golled a wneir ar y prosiect o'i chymharu â gwerth Costau Economaidd Llawn ("CELL") y prosiect

Cyfanswm diffyg y prosiect o'i gymharu â CELL	Llofnodwr Awdurdodedig	Dogfennau Ategol
> £2.5m	Cadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth (neu'r I-G gyda chymeradwyaeth gofnodedig y Cyngor)	Ffurflen Gymeradwyaeth Ariannol y Prosiect RG1 Cynnig Ffurflen Costau Economaidd Llawn
£1m - £2.5m	Cadeirydd RPC Prifysgol Aberystwyth (neu'r I-G gyda chymeradwyaeth gofnodedig y RPC)	Ffurflen Gymeradwyaeth Ariannol y Prosiect RG1 Cynnig Ffurflen Costau Economaidd Llawn
£250k - £1m	Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi Prifysgol Aberystwyth	Ffurflen RG1 Cynnig Ffurflen Costau Economaidd Llawn
£50k - £250k	Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran berthnasol Prifysgol Aberystwyth	Ffurflen RG1 Cynnig Ffurflen Costau Economaidd Llawn
£10k - £50k	Pennaeth Adran	Ffurflen RG1 Cynnig Ffurflen Costau Economaidd Llawn

14.2.5. Mae Ffurflen Cymeradwyo Ariannol y Prosiect ar gael ar gael isod, Atodiad 2. Mae Ffurflen RG1 a'r Daflen Excel Costio Economaidd Llawn ar gael ar y ddolen ganlynol
<https://www.aber.ac.uk/en/rbi/staff-students/support/toolkit/>

14.3. Grantiau Refeniw Clustnodedig

14.3.1. Fel arfer mae Grantiau Refeniw Clustnodedig yn cwmpasu'r costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r prosiect yn unig, ac nid ydynt yn cwmpasu gorbenion fel costau adeiladau, costau cymorth gwasanaethau proffesiynol, salwch staff ac ati.

14.3.2. Mewn rhai amgylchiadau penodol gall y Brifysgol ddewis ymgymryd â grantiau Clustnodedig am eu bod yn cynorthwyo'r Brifysgol i gyflawni nod strategol.

Adran 14: Awdurdodi Prosiectau

Matrics Awdurdodi ar gyfer Grantiau Clustnodedig

- 14.3.3. Mae'r tabl isod yn dangos y lefelau cymeradwyaeth ariannol angenrheidiol ar gyfer prosiectau Grant Clustnodedig.

Incwm y Prosiect	Awdurdod Cymeradwyo	Dogfennau Ategol
> £2.5m	Cadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth (neu'r I-G gyda chymeradwyaeth gofnodedig y Cyngor)	Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect
£1m - £2.5m	Cadeirydd RPC Prifysgol Aberystwyth (neu'r I-G gyda chymeradwyaeth gofnodedig y RPC)	Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect
£250k - £1m	I-G Prifysgol Aberystwyth	Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect
£50k - £250k	Rheolwyr Cyllideb Atebol Cyfarwyddwr Ystadau	Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect
£10k - £50k	Uwch Ddeiliaid Cyllideb	-

- 14.3.4. Mae ffurflen Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect ar gael, gweler Atodiad 2.

- 14.3.5. Mae'r RPC a'r Cyngor yn cymeradwyo nifer o brosiectau grant clustnodedig referniw fel rhan o'r broses o osod y Gyllideb Flynyddol. Ni fyddai angen cymeradwyaeth bellach gan yr RPC a'r Cyngor os yw'r RPC a'r Cyngor eisoes wedi cymeradwyo'r prosiect fel rhan o'r broses o osod y gyllideb flynyddol.

14.4. Trefniadau a Phartneriaethau Cydweithredol Newydd

- 14.4.1. Rheolir trefniadau partneriaeth newydd gan yr Adran Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol ("ICPC"). Dangosir y broses gyflawn ar y safle Cydweithio. <https://www.aber.ac.uk/en/collaborative-provision/staff-info/the-approval-process/>

- 14.4.2. Fel rhan o'r broses gymeradwyo, rhaid cwblhau Dadansoddiad Ariannol ar gyfer y mathau canlynol o weithgaredd cydweithredol:

- Cydweddu
- DPP sy'n rhoi credydau
- Graddau Cydweithredol
- Rhyddfreniaid
- Dilysu

- 14.4.3. Gellir cwblhau dadansoddiadau hefyd ar gyfer mathau eraill o drefniadau (e.e. Cytundebau Gwasanaeth) ar gais y Pwyllgor.

- 14.4.4. Rhaid costio trefniadau ariannol yr holl drefniadau cydweithredol a phartneriaeth yn llawn a chyfrif amdanynt yn gywir ac yn llawn, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau monitro ac arholiadau allanol, os yw'n berthnasol, cyn y gall yr ICPC lofnodi a chymeradwyo'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth. Mae templed Excel ar gyfer y dadansoddiad ariannol ar gael ar y wefan ganlynol ("Templed Achos Busnes"). <https://www.aber.ac.uk/en/collaborative-provision/staff-info/the-approval-process/business-case/>

Adran 14: Awdurdodi Prosiectau

- 14.4.5. Gall y dadansoddiad ariannol ddigwydd ar yr un pryd â datblygu'r achos academiaidd ar gyfer darpariaeth gydweithredol. Fodd bynnag mae'r ASA yn pennu bod rhaid ystyried yr achos busnes ac academiaidd dros drefniant cydweithredol arfaethedig ar wahân.
- 14.4.6. Dylid Cyflwyno'r templedau Dadansoddiad Ariannol a Chymeradwyaeth Ariannol y Prosiect (Gweler yr atodiadau isod) i'r adran Cyllid ar ôl llofnodi Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth ond cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb contractaidd. Rhaid cyfleu penderfyniad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a/neu Fwrdd Gweithredol y Brifysgol i'r Swyddfa Cydweithio yn AQRO (collaboration@aber.ac.uk) er mwyn gallu adrodd arno i'r ICPC.

Matrics Awdurdodi ar gyfer trefniadau Cydweithredol Newydd

Incwm Blynyddol a Ragwelir	Awdurdod cymeradwyo	Dogfennau ategol
> £2.5m	Cadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth (neu'r I-G gyda chymeradwyaeth gofnodedig y Cyngor)	Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect Templed Achos Busnes / Dadansoddiadau Ariannol Eraill
£1m - £2.5m	Cadeirydd RPC Prifysgol Aberystwyth (neu'r I-G gyda chymeradwyaeth gofnodedig y RPC)	Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect Templed Achos Busnes / Dadansoddiadau Ariannol Eraill
£250k - £1m	I-G Prifysgol Aberystwyth	Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect Templed Achos Busnes / Dadansoddiadau Ariannol Eraill
£50k - £250k	Rheolwyr Cyllideb Atebol Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd	Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect Templed Achos Busnes / Dadansoddiadau Ariannol Eraill
£10k - £50k	Uwch Reolwyr Cyllideb	Templed Achos Busnes / Dadansoddiadau Ariannol Eraill

Mae ffurflen Cymeradwyaeth Ariannol y Prosiect ar gael, gweler Atodiad 2.

14.5. Prosiectau Eraill

- 14.5.1. Bydd y Brifysgol hefyd yn ymgymryd â nifer o brosiectau sylweddol bob blwyddyn. Rhaid creu ac adolygu achosion busnes i'r prosiectau hyn os yw'r gost flynyddol i'r Brifysgol cyn derbyn unrhyw incwm yn fwy na £250k. Rhaid cael cymeradwyaeth yr I-G ar gyfer prosiectau dros £250k, neu Gadeirydd y Cyngor os yw'r prosiect y tu allan i'r gyllideb. Anogir achosion busnes hefyd ar gyfer prosiectau llai o faint.
- 14.5.2. Ceir templed yn egluro'r wybodaeth sydd ei hangen yn yr achos busnes.

Atodiad 2, ymeradwyaeth ariannol prosiect

Pwnc: Disgrifiad byr

Disgrifiad cryno o'r prosiect arfaethedig a'r rheswm y mae'r prosiect yn cael ei gynnig.

Gweithgareddau sydd eu hangen

Camau y gofynnir i'r Weithrediaeth eu cymeradwyo yn awr

Dadansoddiad Ariannol o'r Prosiect

Ystyriaethau allweddol sy'n codi o'r diwydrwydd dyladwy

Ystyriaethau allweddol sy'n codi o'r diwydrwydd dyladwy	Effaith Bosibl

Diwydrwydd Dyladwy		Cymeradwyaethau	
Effaith trafodion	Dyddiad.....	Cychwynnwr.....	Dyddiad
Caffael:	Dyddiad.....	Cyfrifydd Prosiect.....	Dyddiad
Cyreithioll	Dyddiad.....	Pennaeth Adran.....	Dyddiad.....
Ymchwil i'r farchnad.....	Dyddiad.....	Cyfarwyddwr Sefydliad /	Dyddiad
Achos Busnes		Diprwy l's Ganghellor	

Atodiad 3 - Tabled Achos Busnes

Tabled Achos Busnes

Crynodeb Gweithredol

- Dysgrifiad o fenter gan gynnwys:
 - Buddion
 - Fit strategol
 - Cyflawniadau
 - Dewisiadau amgen
- Crynodeb Ariannol
- Amserlen Amilinellol

Tudalen Llofnodi

- Awdur a Noddwr
- Cyfranwyr darpariaeth academiaidd
- Cyfranwyr Dadansoddi Effaith
 - Academydd
 - Cefnoga
 - Arall (ee fasnachiadau)
- Cyddid

Cydymffurfio a risk

- Dadansoddiad Ansawdd
- Dadansoddiad Cyfreithiol
- Dadansoddiad Rheoliadol
- Risg y Prosiect (gan gynnwys y gofrest risg)

Cynllunio

- Llywodraethu Prosiect a Thîm Prosiect Llinell
Amser a Cherrig Milltir
Cyffredinol

Disgrifiad o Fenter

- O beth ydyw, beth fydd yn ei ddwyn i'r brifysgol?
- Ffit strategol
- Hymchwilio
- Mesurau llwyddiant - gan gynnwys DPA

Amgylchedd

- Farchnad

- Cyfranddaliadau segmentu a marchad
- Swyddi cyfrifiadurol

- Ffactorau gwleidyddol ac amserol

Cyllid

- Incwm
 - Rhagolygon Galw (*myfyrwyr*)
 - Gan Gynnwys Dadansoddiad (*gan gynnwys dadansoddiad cystadleuwyr*)
- Costau
- *O Dadansoddiad Pact (beth yw'r effaith ar bob adran a'r brifysgol gyfan).*
 - Gwerthuso Costau
 - *Treth (gan gynnwys TAW, treth gorfforaeth, sefydlu sefydliad parhaol, treth gweithwyr, cyfundrefnau treth dramor dyletswydd stamp)*
- Lansiad post 5 mlynedd I ac E Llif Arian ac Ad-dalu
- Ffynhonnell arian ar gyfer buddsoddi
- Gweinyddiaeth Ariannol (*gan gynnwys codi anfoneb Proses, proses ac amseriadau casglu dyledion, risg o ddyled ddrwg, amseru talu a threfniadau prosesu*)
- Trefniant Echdynnu a Bancio Arian Parod